PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 159 | Rhif 13 | Mawrth 26, 2026 | 50c.

## Dewi Myrddin Hughes



Trist iawn oedd clywed yr wythnos hon am farwolaeth yr annwyl Dewi Myrddin Hughes. Bu ef yn weinidog i'r Arglwydd Iesu yn Ebeneser, Tylorstown a Saron, Ynys-hir 1965–71; Capel Newydd, Cwmllynfell 1971–81; Christian Temple, Rhydaman 1981–99. Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg 1999–2006.

Cydymdeimlwn yn fawr iawn â'i deulu yn eu galar a'u hiraeth yn enwedig ei briod Annette a'r plant Aled ac Ifan ac Elin, Non a Dafydd.

Bydd teyrnged lawn iddo maes o law yn *Y Tyst*.

## Trafod rhyfel ac olew yn Nhre-lech



Mynegwyd arswyd am y dinistr a'r dioddefaint yn y Dwyrain Canol, ac effeithiau andwyol y rhyfel ar gostau byw pobl yng Nghymru, gan Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin yn eu Cwrdd Chwarter yng Nghapel y Graig, Tre-lech. Cytunwyd yn unfrydol bod Cadeirydd y Cyfundeb, y Parchg Gareth Ioan, yn anfon y llythyr isod yn enw'r Cyfundeb (yn Saesneg) at Warren Stephens, Llysgennad yr Unol Daleithiau yn Llundain.

### Llythyr i'r Llysgennad

*Rwy'n ysgrifennu ar ran 2,000 o Gristnogion sy'n addoli mewn capeli Annibynnol yn ein rhan ni o orllewin Cymru. Er bod y gwrthdaro yn y Dwyrain Canol yn bell yn ddaearyddol, rydym yn pryderu'n fawr am ei oblygiadau moesol ac economaidd.*

*Mae'r profiad o wrthdaro blaenorol yn Irac ac Affganistan yn dangos nad yw trais a rhyfela yn ddulliau cyfiawn nac effeithiol o fynd i'r afael â'r heriau cymhleth sy'n wynebu'r rhanbarth. Rydym yn arswydo oherwydd y golled enfawr o fywydau, yn enwedig ymhlith plant a sifiliaid eraill, ac yn pryderu bod y gwrthdaro'n parhau i ymledu y tu hwnt i'w ffiniau gwreiddiol. Hoffem hefyd fynegi ein cydymdeimlad diffuant â theuluoedd personél milwrol yr Unol Daleithiau sydd wedi colli eu bywydau.*

*Yng ngoleuni'r pryderon hyn, rydym yn gadarn a gyda'r parch pennaf, yn annog Unol Daleithiau America i gydnabod yr angen am gadoediad ar unwaith fel y cam hanfodol cyntaf tuag at heddwch parhaol a chyfiawn yn y Dwyrain Canol. Credwn mai dim ond trwy barchu cyfraith ryngwladol yn llawn y gellir sicrhau cymod, diogelwch a sefydlogrwydd hirdymor.*

### Apêl i'r Prif Weinidog

Cafodd e-bost ei anfon hefyd at y Prif Weinidog, Keir Starmer yn ei annog i sicrhau na fydd Prydain yn cael ei llusgo ymhellach i mewn i'r rhyfel, gan ofyn iddo i bwyso ar Israel a'r Unol Daleithiau i geisio cadoediad fel y cam cyntaf tuag at heddwch a sefydlogrwydd yn y Dwyrain Canol.



### Yr argyfwng olew

Pan ofynnwyd i'r gynulleidfa yng Nghapel y Graig faint oedd yn dibynnu ar gyflenwad olew i wresogi eu cartrefi, fe wnaeth dros 20 godi eu llaw. Yn sgil hynny, cytunwyd i anfon datganiad newyddion i'r wasg a'r cyfryngau yn tynnu sylw at yr argyfwng yn enw Brian Walters, is-gadeirydd y Cyfundeb.

*Mae'r rhan fwyaf o'n haelodau ni'n byw mewn ardaloedd gwledig, lle mae cannoedd o deuluoedd yn dibynnu ar gyflenwadau olew sy'n dod mewn lori. Mae pris olew nid yn unig wedi codi'n aruthrol, ond mae pobl hefyd yn profi wythnosau o oedi cyn cael cyflenwad. Ar adeg fel hon, rydym yn gweld pa gwmnïau olew sy'n wirioneddol ofalu am eu cwsmeriaid,* meddai Brian.

*Mae pobl cefn gwlad Cymru'n dioddef o ganlyniad i ymddygiad arweinwyr rhyfelgar sy'n achosi'r fath wrthdaro dinistriol yn y Dwyrain Canol. Mae'r prisiau uwch a'r prinder yn eithriadol o eironig o gofio bod purfa olew Valero, un o'r mwyaf yn Ewrop, ar stepen y drws yn Aberdaugleddau.*

### Sylw yn y cyfryngau



Cafodd sylwadau Brian gryn sylw a chefnogaeth ar y cyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â chael ei gyfweld ar raglen amaeth Radio Cymru. Ers hynny mae Keir Starmer wedi neilltuo dros £50m i helpu'r bobl fwyaf bregus sy'n dibynnu ar olew fel tanwydd. Ond ni fydd miloedd o aelwydydd eraill yn cael unrhyw gymorth. Wrth i'r rhyfel ddwysau, mae pris olew nifer o gwmnïau wedi dyblu, a chwsmeriaid yn gorfod aros am hyd at chwe wythnos i gael cyflenwad. Fel Cristnogion, ni allwn aros yn dawel am y sefyllfa arswydus hon.

(Bydd adroddiad am weddill y Cwrdd Chwarter prysur a buddiol yn Nhre-lech yn y rhifyn nesaf o'r *Tyst*.)

# Rhagor o Gyngor y Gwanwyn

## Yr Adran Dinasyddiaeth Gristnogol



Mynegwyd yn glir ar ddechrau'r cyfarfod yr angen i'r Undeb godi llais pendant yn erbyn anghyfiawnder, rhyfel a thrais, yn enwedig yng ngoleuni'r sefyllfa gythryblus yn y Dwyrain Canol. Pwysleisiwyd y dylid defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn fwy strategol, gan fod digwyddiadau'n newid yn ddyddiol.

### Cytûn

Cafwyd cyflwyniad gan Iestyn Davies, Swyddog Polisi Cytûn, a roddodd drosolwg o strwythur newydd y gwaith polisi, wedi'i drefnu o dan bum pennawd: Dinasyddiaeth, Rhyngwladol, Addysg, Iechyd a Lles ac Economi. Arweiniodd hyn at drafodaeth fywiog ar ddull Cytûn o lunio consensws a gwneud penderfyniadau.

### Gweithgor Economi Bywyd a Newid Hinsawdd

Nodwyd fod dwy eglwys Annibynnol – Horeb, Penydarren ac Ebeneser, Dyfnant – wedi cychwyn ar eu taith werthuso gyda'r elusen ARocha. Anogwyd eglwysi eraill i ymuno, a chadarnhawyd y bydd deunydd Cymraeg ar gael cyn diwedd y mis. O ran y prosiect 'Pum Peth Personol', cadarnhawyd bod y pecyn gwybodaeth wedi cyrraedd pob eglwys. Mae disgwyl y bydd diweddariad ar gyflawniad yr ymgyrch hyd yma o dair eglwys – Emaus, Bangor; Tabernacl, Pen-y-bont ar Ogwr a Chapel y Nant, Clydach.

### Rhwydwaith Merched Cymru

Nodwyd bod caniatâd gan Beauty Banks i gyfieithu eu deunydd i'r Gymraeg, gyda lansiad ffurfiol ym mis Mehefin o dan yr enw 'Glandeg'. Pwysleisiwyd y dylai'r lansiad fod yn gynhwysol ac yn hyrwyddo hunan-barch i bawb.

### Y fasnach arfau

Mynegwyd siom gydag ymateb y pleidiau gwleidyddol i lythyr a anfonwyd atynt. O ystyried bwriad Prydain i gynyddu'r gwariant ar amddiffyn, awgrymwyd gofyn i'r Parchg Guto Prys ap Gwynfor baratoi datganiad ar gyfer y Cyfarfodydd Blynyddol i gynorthwyo aelodau i fynegi safbwynt Cristnogol ar y mater.

### Cymorth Cristnogol

Nodwyd bod Cymorth Cristnogol wedi ymateb i'r gyflafan sy'n digwydd yn y Dwyrain Canol, ac wedi rhyddhau datganiad. Mynegwyd awydd cryf i leisio neges debyg yn enw Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, ac fe anfonwyd datganiad i'r wasg a'r cyfryngau eraill ar ddiwedd cyfarfod y Cyngor.







## Penderfyniadau

**Undeb yr Annibynwyr Cymraeg**
**Cyfarfodydd Blynyddol 2026**

Cyfundeb Gorllewin Morgannwg
Gwesty'r Towers, Abertawe
24–26 Mehefin, 2026

Rhaid i rybudd o bob penderfyniad sydd i'w cyflwyno yn y gynhadledd eleni gyrraedd yr Ysgrifennydd Cyffredinol erbyn 8 Mai fan bellaf. Bydd angen llofnod cynigydd ac eilydd ar bob penderfyniad.

### Gwrth-hiliaeth

Mynegwyd pryder am gynnydd mewn hiliaeth, gyda'r bwriad o ymgynghori â Carwyn Siddall ynghylch hyfforddiant posibl.

### Hafanau Heddwch

Yn olaf, argymhellwyd cydweithio â'r elusen Caring for God's Acre yn eu prosiect Hafanau Heddwch, gan ganolbwyntio ar ddiogelu bywyd gwyllt a threftadaeth mewn safleoedd claddu ledled Cymru.

**Rhodri Gwynn-Jones**
**(Ysgrifennydd)**

Yr Adran Gydenwadol

MAWRTH 26 2026 RHIF 265

# Lansio *Lleisiau'r Fendith* gan Gwen Emyr



Aled Davies, Lis Williams, Gwen Emyr, Nathan Munday a John Aaron yn lansiad Caerdydd



Aled Davies, Ann Davies, Gwen Emyr, John Emyr, Carys Davies a Hywel Meredydd Davies yn y lansiad ym Myd Mary Jones

Yn ddiweddar cyhoeddwyd *Lleisiau'r Fendith* gan Gwen Emyr – cyfrol sy'n olrhain profiadau gwragedd yr adfywiad efengylaidd yng Nghymru yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif.

Cynhaliwyd y cyfarfod lansio cyntaf ym Myd Mary Jones, ger y Bala, lle cyflwynwyd copi i'r awdur gan Aled Davies, cyfarwyddwr Cyhoeddiadau'r Gair. Trefnwyd y cyfarfod gan Ann Davies o Siop Gristnogol Manna yn y dref, ac agorwyd y cyfarfod gydag eitemau defosiynol gan John Emyr. Yn dilyn hynny, cyflwynwyd darlleniadau a gair o werthfawrogiad gan Carys a Hywel Meredydd, sef brawd Gwen. Braf oedd cael cyfle i rannu storïau ac atgofion yn y caffi wedi'r cyfarfod lansio yn yr eglwys.

Yna, wythnos yn ddiweddarach, cafwyd lansiad arall yng Nghaerdydd, a hynny yn Siop Lyfrau Gristnogol Eglwys yr Heath yn yr Eglwys Newydd. Braf oedd gweld yr ystafell gyfarfod yno yn orlawn, ac eto cafwyd cyfraniadau gan John Aaron, Nathan Munday, gweinidog yr eglwys, a Lis, ffrind i Gwen.

Ceir yn y gyfrol lu o bortreadau a chyfweliadau â merched a wnaeth gyfraniad nodedig i fywyd ysbrydol Cymru, ac mae ein dyled i Gwen am gasglu'r hanesion yma ynghyd.

Dywedodd Gwen: 'A ninnau heddiw yn cael cyfle fel cymdeithas i fawrygu cyfraniad merched, credaf fod y merched a gynrychiolir yn y gyfrol hon yn teilyngu eu lle hwythau yn ein horiel o ferched dewr. Yn wir, mae'r lleisiau yn y cyfweliadau yn f'atgoffa o'r darlun a gawn o gyfraniad merched, yn ogystal â dynion, yn yr Eglwys Fore. Cristnogion oedd yn caru'r Gwaredwr oedden nhw, pobl yr ail filltir a chariad y brodyr a'r chwiorydd at ei gilydd yn disgleirio, nes peri awydd ynof, ymhen blynyddoedd, i'w cyf-weld.

'Ymgais sydd yma i gasglu ynghyd a chofnodi'r dystiolaeth wreiddiol, gan nad oes tystiolaeth gryfach na llais unigolion yn eu cyfnod. Gwerthfawrogais onestrwydd y cyfraniadau, a'r pwyslais ar werth gweddi. Sylweddolaf heddiw wrth edrych yn ôl dros y blynyddoedd i sawl ffrwd ddeillio o'r fendith a welais ar gerdded yn y Bala yn nyddiau fy mhlentyndod. Un ffrwd oedd y cyfle a roddwyd i ferched i gael mwy o lais drwy gyfrwng *Y Cylchgrawn Efengylaidd*. Ffrwd arall oedd y mudiad y daeth Sylwen Lloyd Davies yn Llywydd ac yn Llywydd Anrhydeddus iddo, sef Merched y Wawr. Diolch am gyfraniad arbennig pob un o'r gwragedd hyn'.

Dywedodd Dr John Aaron: 'Yn ystod diwedd pedwardegau'r ganrif ddiwethaf a thrwy'r pumdegau, bu adfywiad ysbrydol ymhlith degau os nad cannoedd o bobl yng Nghymru, oedolion ifanc gan fwyaf. Trefnasant ymgyrchoedd efengylu yn nhrefi'r gogledd a'r de, gan ddosbarthu copïau o'u cylchgrawn: *Y Cylchgrawn Efengylaidd*. Fe'u gelwid yn 'Bobl y Cylchgrawn'. Galwyd nifer o'u dynion i bregethu'r Efengyl, sefydlwyd Mudiad Efengylaidd Cymru i hybu eu gweithgaredd, a ffurfiwyd Gwasg Efengylaidd Cymru (sef Gwasg Bryntirion yn hwyrach). Ychydig o hanes y gwŷr hyn, arloeswyr a phregethwyr yr adfywiad, a gofnodwyd, a braidd dim o gwbl o hanes gwragedd a merched ifanc y mudiad.

'Mae Gwen Emyr wedi gwneud cymwynas fawr â ni fel Cristnogion Cymraeg, felly, trwy gynnal cyfweliadau â nifer o'r gwragedd mwyaf blaenllaw yn y gwaith gan gofnodi eu tystiolaethau gwahanol a sicrhau bod eu hanes ar gof a chadw. Tanlinellir pwysigrwydd ei chyfraniad wrth ystyried mai un yn unig o'r un ar ddeg a gafodd eu cyf-weld yma sydd erbyn heddiw ar dir y byw. Ei chymhelliad wrth gasglu'r hanesion oedd yr ymwybyddiaeth o'r angen arnom ni, yn ein dyddiau seciwlar, di-gred, i glywed 'lleisiau'r fendith' ac i'n hatgoffa o barodrwydd Duw i ymweld â'i bobl, i'w hadfywio ac ailegino ei waith yn ein plith. Cawn ein hatgoffa hefyd, fel yn hanes y rhai a wasanaethodd Grist yn y Testament Newydd (Mair, Mair Magdalen, Mair mam Iago, Salome, a'r gweddill), cymaint o waith y deyrnas sydd yn nwylo gwragedd.'

# Cyhoeddi Rhestr Gwylio'r Byd 2026

Mae *Rhestr Gwylio'r Byd 2026* gan Open Doors bellach ar gael. Yn y llawlyfr Cymraeg cynhwysfawr hwn ceir manylion y 50 gwlad lle mae dilyn Iesu yn costio fwyaf. Ynddo ceir:

- gwybodaeth fanwl a phwyntiau gweddi penodol ar gyfer pob un o'r 50 gwlad
- map Rhestr Gwylio'r Byd a throsolwg byd-eang
- straeon grymus gan Gristnogion sydd wedi cael eu herlid
- lluniau ysbrydoledig a llawer mwy.

I archebu hyd at 30 o gopïau, cliciwch ar y ddolen: https://www.opendoorsuk.org/products/product/2026-wwl-top-50-welsh/


Am fwy na 30 copi, ffoniwch Open Doors ar 01993 460 015 neu anfonwch e-bost at: jims@opendoorsuk.org.

Os ydych chi wedi defnyddio *Rhestr Gwylio'r Byd* yn y gorffennol ac wedi cael bendith o wneud hynny, wnewch chi gymryd eiliad i anfon adborth at Open Doors: contact@opendoorsuk.org, gan roi 'Welsh World Watch List' yn y blwch pwnc? Bydd yn helpu'r tîm yn Lloegr i sylweddoli faint mae'r adnodd yn cael ei werthfawrogi.

Efallai fod teuluoedd yn eich eglwys/capel yn cynnwys siaradwyr Cymraeg a rhai di-Gymraeg. Beth am archebu rhai copïau Saesneg hefyd fel y gellir defnyddio'r ddau ochr yn ochr ar gyfer gweddi? Gellir archebu'r copïau Saesneg yma: https://www.opendoorsuk.org/products/product/2026-wwl-top-50/


Pob bendith,

*Jim Stuart*
*Arweinydd Cysylltiadau Eglwysig, Cymru*
*Open Doors y Deyrnas Unedig ac Iwerddon*




# *Ar Drywydd Cymry Lerpwl* – Gwerthfawrogiad ac Adolygiad

Mi ges i lawer o fwynhad o ddarllen llyfr diweddaraf D. Ben Rees am Gymry'r Glannau, *Ar Drywydd Cymry Lerpwl*, a gyhoeddwyd ar gyfer Gŵyl Ddewi eleni. Ar un wedd, cydymaith ydyw i'w gyfrol fawr, *Hanes Rhyfeddol Cymry Lerpwl*, a welodd olau dydd yn 2019. Felly, cadwch y ddwy gyfrol ochr yn ochr â'i gilydd ar y silff lyfrau.




Yn y gyfrol newydd, ceir tair prif adran. Yn gyntaf, hanes y ddinas ei hun, ac mae gogwydd Cymreig iawn i'r hanes hwnnw. Yn ail, sylwadau ar wahanol lenorion Cymraeg yn Lerpwl o ddyddiau Goronwy Owen yn y ddeunawfed ganrif ymlaen. Yn drydydd, a dyma graidd y gyfrol, 57 o gofiannau byrion yn coffáu Cymry'r ddinas.

At hyn, ceir casgliad o ffotograffau a darluniau pensil o'r capeli hynny fu'n eiddo i'r Annibynwyr Cymraeg yn Lerpwl. Ar ddiwedd y llyfr, mae yna adran fer ynghylch pêl-droed. Mae'n werth nodi hefyd y ceir rhagair buddiol iawn gan Dr Dylan Foster Evans o Brifysgol Caerdydd, un o'n hysgolheigion praffaf.

Mi gefais flas ar y cwbl, ac mae'n gaffaeliad mai darnau byrion at ei gilydd yw'r cynnwys. Mae hynny'n hwylus o ran darllen y gyfrol o dan eich pwysau, ond mae hefyd yn ddull effeithiol o gyfleu gwybodaeth. Mae'n atgoffa rhywun o ddull y gwyddoniadur o gyflwyno ffeithiau ac yn wir, hwyrach mai fel gwyddoniadur Cymry Lerpwl y dylid synio am y gyfrol hon. Pe na bai D. Ben Rees wedi cofnodi'r ffeithiau hyn, gallai'r cwbl fod wedi mynd ar goll.

Un o'r adrannau difyrraf yw honno am lenorion Cymraeg o Lerpwl. Ceir ymdriniaethau â llenorion a symudodd i'r ddinas, ac yna eraill, megis Minimus (John Roberts, 1808–80), a Gweneth Lilly (1920–2004) a fagwyd yn Everton ac Anfield, sy'n frodorion Cymraeg o'r ddinas. Ceir ymdriniaeth dda â stori Gweneth Lilly, 'Cymdogion', sy'n enghraifft gymharol brin o lenyddiaeth Gymraeg ynghylch Lerpwl gan un sy'n dod o Lerpwl. Y duedd fwyaf arferol yn Lerpwl fu ysgrifennu am fywyd yn ôl yng Nghymru. Ond hyd yn oed wrth ysgrifennu am Gymru, byddwn yn taeru fod dull llenorion Cymraeg Lerpwl o wneud hynny'n dangos yn aml iawn ddylanwad bywyd y ddinas. Mae'n anodd gen i gredu, er enghraifft, y gallai cawr fel Gwilym Hiraethog fod wedi llenydda a newyddiadura fel y gwnaeth pe bai wedi aros adref yn Llansannan.

Trown yn awr at yr adran cofiannau byrion. Dyma gyfraniad mawr i'n dealltwriaeth o fyd Cymry Lerpwl. Nid yw pob un o'r enwau'n gyfarwydd ac imi o leiaf, dyna ran go lew o'r diléit o ddarllen y cofnodion hyn. Mae rhywun yn dysgu rhywbeth newydd ar bob tudalen. Mewn sawl achos, dyma'r unig gofnod cyfoes sydd gennym o'r bobl sydd dan sylw. Rhaid mynd yn ôl i hen rifynnau o'r *Brython* i gael yr hanes fel arall. Mewn achosion eraill, mae'r wybodaeth yn ymhelaethiad sylweddol ar yr hyn sy'n wybyddus. Cymharwch, er enghraifft, rai o'r cofnodion hyn â chynnwys cyfatebol yn *Y Bywgraffiadur Cymreig*; yn ddieithriad mae'r cofnod sydd yn *Ar Drywydd Cymry Lerpwl* yn rhagori. Ceir yn y cofiannau bortread o'r rhychwant o brofiadau a galwedigaethau a nodweddai'r gymuned Gymraeg yn Lerpwl: y gweinidog, y masnachwr, yr adeiladwr, y gwleidydd, y delynores, y genhades, y cerddor, y trefnydd eisteddfodau.

Gwelir yma holl ystod cymdeithasol y gymdeithas Gymraeg ddinesig y bu D. Ben Rees yn ysgrifennu yn ei chylch ers trigain o flynyddoedd. Mae'r gyfrol hon yn gyfraniad disglair eto fyth ganddo i hanes y Cymry Cymraeg yn Lerpwl. Ac mae'n cadarnhau ei le fel prif hanesydd y bywyd Cymraeg y tu allan i Gymru.

*Simon Brooks*

## Y GRAWYS – WYTHNOS 6

# Grymuso arweinwyr iau




### Darlleniad

*Luc 2:41–52*

### Myfyrdod

Yn ein sgyrsiau ynglŷn â rhaniadau cymdeithasol, mae thema ieuenctid yn amlwg oherwydd pryderon am y ffordd y mae'r rhaniadau hyn yn effeithio ar eu bywydau a'u lles. Bydd ffocws y sgwrs yn wahanol mewn gwahanol leoedd. Mewn rhai eglwysi mae pryder am absenoldeb ieuenctid, ac mewn eraill ceir dilema ynghylch sut orau i ymateb i'w presenoldeb, gan wneud lle i'w harweinyddiaeth, eu gweledigaeth a'u pryderon. Wrth i ni geisio ymgysylltu â'r gymuned ehangach y tu hwnt i'r eglwys, gall rhaniadau rhwng cenedlaethau fod yn rhwystr gwirioneddol i gyfathrebu effeithiol â phobl ifanc.

Mae'r darlleniad heddiw yn ein hysgogi i feddwl am y gwahaniaeth mewn disgwyliadau a all effeithio ar arweinyddiaeth pobl ifanc. Yn aml bydd eglwysi'n meddwl am bobl ifanc yn nhermau'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt, yn hytrach na'r rhoddion maen nhw'n dod gyda nhw. Yn 2018 roedd Cyfarfod Rhyng-eglwysig Iwerddon ar y thema 'Mae realiti yn fwy na syniadau? Myfyrio ar y lles cyffredin mewn cymunedau rhanedig' yn cynnwys panel o arweinwyr ifanc o Youth Link, sef project eciwmenaidd i gefnogi pobl ifanc a gweinidogaeth ieuenctid. Rhannodd aelodau'r panel ag arweinwyr eglwys sut oedd tyfu i fyny mewn cymunedau a glwyfwyd gan wrthdaro wedi effeithio ar eu bywydau, gyda'r heriau iechyd meddwl sydd wedi effeithio arnyn nhw yn ogystal â'u teuluoedd a'u ffrindiau, y bywydau a gollwyd i hunanladdiad, i gyffuriau ac i droseddu, a'r diffyg cefnogaeth i'w cadw mewn addysg a chyflogaeth.

Roedd y realiti dyddiol a ddisgrifiwyd ganddynt yn sioc i lawer o arweinwyr yr eglwys. Wrth ysgrifennu ar ôl y digwyddiad, nododd y Cyd-gadeirydd, yr Esgob Brendan Leahy, ei fod wedi'i daro gan y modd y mae'r heriau hyn "yn cael eu chwyddo o dan chwyddwydr di-baid y cyfryngau cymdeithasol". Dywedodd:

> Er gwaethaf hyn, fodd bynnag, ysbrydolodd yr ieuenctid a gymerodd ran ni â gobaith mawr. Fe wnaeth y gonestrwydd a'r gwytnwch a ddangoswyd ganddynt herio ac annog pob un ohonom wrth iddyn nhw wneud ple angerddol dros roi cyfle arall i bob person ifanc sydd wedi gwneud dewisiadau gwael yn y gorffennol. Mae gwers yn hynny i bob un ohonom wrth i ni fyfyrio ar ein gobeithion, a'n methiannau, wrth i ni geisio cynnig arweiniad a gofal bugeiliol mewn cymunedau rhanedig.

### Cwestiynau i fyfyrio arnynt a'u trafod

- Sut ydych chi'n gweld yr Eglwys yn buddsoddi mewn pobl ifanc – sydd efallai wedi cael eu heithrio?
- Pa mor effeithiol ydych chi'n teimlo bod eich Eglwys yn cydbwyso'r angen am gefnogaeth a grymuso yn ei dull o ymgysylltu â phobl ifanc?
- A oes materion sy'n effeithio ar bobl ifanc rydych chi'n teimlo na allwch eu trafod? Beth allai eich helpu i deimlo'n fwy hyderus am hyn?

### Gweithredu

- Archwiliwch sut mae eglwysi'n cefnogi pobl ifanc sy'n cael eu heffeithio gan drais drwy'r Rhwydwaith Synergy – https://wearesynergy.org.uk. A allai unrhyw un o'r syniadau hyn fod yn berthnasol yn eich cyd-destun chi?
- Archwiliwch yr adnoddau a gynigir gan Roots for Churches i gefnogi cysylltu rhwng cenedlaethau yn yr Eglwys: https://www.rootsontheweb.com/i-am-looking-for/resources-for-intergenerational-church. A allai'r rhain gynnig unrhyw syniadau newydd yn eich cyd-destun chi?
- A oes unrhyw ddigwyddiadau dan arweiniad ieuenctid i feithrin deialog yn eich cyd-destun chi y gallech eu cefnogi neu ymuno â nhw?

### Gweddi

Arglwydd,
Gweddïwn dros arweinwyr iau yn ein cymuned
y byddant yn cael eu grymuso
i ddod â'u doniau a'u talentau,
eu gwybodaeth a'u profiad,
i'r gwaith o adeiladu dyfodol gwell i bawb.
Bydd yn agos at yr holl bobl ifanc hynny
sy'n cael trafferth gyda materion hunaniaeth a pherthyn
yng nghanol pwysau a all deimlo'n ddi-baid.
Boed i'r Eglwys fod yn hael
yn ei hestyn allan a'i hymwneud â phobl ifanc
er budd pawb. Amen.


S4C *S4C Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 29 Mawrth, am 6:45yh – Sul y Blodau**
Rhodri Gomer sy'n dathlu Sul y Blodau yng ngerddi hardd Aberglasne yn Nyffryn Tywi. Cawn gyfle i fwynhau blodau cynta'r gwanwyn a chwrdd â'r gwerthwr blodau Lowri Johnston o Gaerfyrddin, sydd wedi agor pennod newydd yn ei bywyd personol a phroffesiynol ar ôl goresgyn heriau a threialon. Ar ddechrau'r Wythnos Fawr sy'n arwain at y Pasg, byddwn yn edrych ymlaen at binacl y flwyddyn Gristnogol. A chawn fwynhau perfformiad disglair gan Gôr Merched Plastaf.

BBC radio cymru *Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 29 Mawrth, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Bryn Williams

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 29 Mawrth, am 12:00yp – Y Grawys o Gaernarfon – Sul y Blodau**
Oedfa dan arweiniad Dylan Williams

# Y diweddar Barchg Emyr Lyn Evans

Western Welsh oedd y bws a'n cludai i ysgol ramadeg Llandysul. Byddai'r bws yn cychwyn yng Nghastellnewydd Emlyn a dringo rhiw Bryndioddef a mynd heibio Blaencillech. Byddai plant Brongest yn dal y bws yn Troedyraur ac wedyn ymlaen i Rydlewis, Coedybryn, Ffostrasol, Bwlchygroes, Croeslan, Horeb ac i Neuadd Tysul. Cerdded wedyn fyny rhiw Seion gan ofalu fod y bechgyn â'u capiau am eu pennau wrth gyrraedd yr 'ysgol ar y bryn'. Ym Mwlchygroes y byddai Emyr yn dal y bws ac yntau wedi cerdded o fferm Ffosyffin a dyna pryd y cyfarfyddais gyntaf â'r bachgen a mop o wallt coch.



Roedd ysgol ramadeg Llandysul yn hynod gefnogol inni oedd â'n bryd ar y weinidogaeth a gall yr ysgol ymffrostio iddi godi nifer o weinidogion ac offeiriaid gan gynnwys naw a ddaeth yn weinidogion gyda'r Annibynwyr. Record dda iawn!

Aeth Emyr 'rôl gadael yr ysgol i Lundain gan feddwl am yrfa yn yr heddlu, ond dychwelyd a wnaeth a phenderfynu mynd i'r weinidogaeth Gristionogol. Ym mlwyddyn olaf yr ysgol, fel eraill ohonom, fe gafodd wersi Groeg o dan hyfforddiant athro clasuron yr ysgol sef Robert Morgan a hynny yn y tŷ gwydr ynghanol y cactus!

### Bwlch-y-groes

Yng nghapel Bwlch-y-groes y magwyd Emyr, ei fedyddio a'i dderbyn yn aelod. Ar y pryd yr oedd yn eglwys luosog ei haelodaeth a chanu cynulleidfaol eneiniedig ac roedd yn arfer ar Sul Cymun i fynd â'r elfennau i'r galeri. Dyna'r math o awyrgylch y magwyd Emyr ynddo fel y gweddill ohonom.

Fyddech chi ddim yn hir yng nghwmni Emyr cyn y byddai yn sôn am ei weinidog sef y Parchg W. Rhys Nicholas. Cymeradwywyd ef ganddo i Gyfundeb Ceredigion a chael ei arholi gan y Parchg Llewelyn Lloyd Jones a Trefor Burgess Jones. Ac yn ôl y gofyn pregethodd ar brawf mewn tair eglwys a chofiaf yn dda amdano'n dod i fy mam eglwys yn Hawen, Rhydlewis a phawb oedd yn bresennol yno yn cymeradwyo yn frwd.

### Dyddiau coleg

Yn 1960 aeth i Goleg Coffa Abertawe a honno oedd blwyddyn gyntaf y coleg newydd (wedi uno Coleg y Presby.) Fel pawb ohonom roedd yn ddyledus i'r Prifathro Dr Pennar Davies a'r athrawon D. J. Davies, D. Trefor Evans a D. P. Roberts. Yn y blynyddoedd hynny byddem yn teithio trwy Gymru i bregethu, i siroedd Morgannwg, siroedd y Gorllewin ac ar deithiau casglu i'r coleg i'r Gogledd gan ddod i adnabod ardaloedd ac eglwysi a phrofi lletygarwch. Byddai Emyr yn fwy na pharod inni gyd deithio ag ef yn ei gar cyflym!

### Lan i'r gogledd

Bob dydd Gwener ar y ffordd adref byddai'n galw yn Llaindelyn, Croeslan sef cartref ei weinidog y Parchg W. Rhys Nicholas a chael ei fentora ganddo cyn bod y gair yn cael ei fathu. Cofiai'r cynghorion a gafodd yno ar hyd ei weinidogaeth. Dyma'r sylfaen gadarn a gafodd Emyr. Cychwynnodd ar ei weinidogaeth yn nyffryn clodfawr Clwyd a'i ordeinio yn 1964 yn weinidog ar eglwysi Waungoleugoed, Y Green a Ffordd Las a bysiau Tom Lewis, Penrhiwpal yn cludo'r lluoedd i gapel Lôn Swan Dinbych i'r ordeinio. Llywyddwyd y cyfarfod gan Tom Thomas a ddaeth yn ddiweddarach yn weinidog Horeb a Bwlch-y-groes. Ordeiniwyd ef gan y Prifathro Pennar Davies ac ef hefyd a draddododd yr anerchiad ar y weinidogaeth yn absenoldeb Rhys Nicholas oherwydd tostrwydd. Pregethodd y Parchg T. Glyn Thomas yn oedfa'r hwyr.

### Lawr i'r de

Wedi dwy flynedd yn y gogledd ddwyrain daeth yn ôl i orllewin Caerfyrddin yn 1966 i Gibeon, Ffynnonbedr a Rhydyceisiaid ac ar ôl deg mlynedd cafodd alwad i Ebeneser Abergwili, Panteg, Felin-Wen a Libanus Llanllawddog gan ychwanegu Siloam, Pontargothi a Horeb, Felin-gwm. Ymddeolodd yn y flwyddyn 2018. Er hynny, daliodd ati i ofalu am Ebeneser a Phanteg gan gynnal ei oedfa olaf Nadolig 2025 gan weinyddu'r cymun a derbyn Jac Llywelyn ac Elen Fflur ei wyrion yn aelodau.

Apwyntiwyd Emyr yn gaplan eglwysi rhyddion yn Glangwili ac ysbyty'r Prior a bu wrth y gwaith am hanner canrif. Cydweithiodd yn arbennig â'r cyn-gaplan y Parchg Glyndwr Walker a'r uwch-gaplan er lles cleifion a theuluoedd a staff yr ysbyty.

### Angladd

Yn y gwasanaeth angladdol preifat yn amlosgfa Parcgwyn, Arberth, darllenwyd o Ioan 21:15–17. Yma, mae Iesu yn ymddangos i'r disgyblion ar y traeth ac yn gofyn cwestiwn i Pedr dair gwaith sef, 'A wyt ti yn fy ngharu i?' Wedi i Pedr ateb yn gadarnhaol rhodd Iesu y tri chomisiwn, 'Portha fy ŵyn, bugeilia fy nefaid a portha fy nefaid.' Ymatebodd Emyr i'r comisiwn hwn gyda'i bregethu glân (fel yna y byddai Emyr yn disgrifio rhai o bregethwyr yr enwad) ei fugeiliaeth ofalus a'i gariad at y cynulleidfaoedd y cafodd y fraint o'u bugeilio. Cyflawnodd y gwaith fel caplan yn gydwybodol gan fod ar alw i ymateb i alwadau brys heb boeni pa amser o'r dydd neu'r nos.

Roedd ganddo ddiddordebau megis cadw hen geir, cadw gwartheg a defaid i'w tewhau a hoffter o flodau. Yn wythnos yr Eisteddfod byddai yn mynd bob mis Awst (heb fynd ar gyfyl y maes!) i'r maes carafanau ac yno byddai ar ddyletswydd yn cynorthwyo'r carafanwyr. Ar y dydd Gwener olaf byddai yn ysu am gael mynd adref at ei bobl.

Pan oedd yn dathlu 60 mlynedd ers ei ordeinio anfonwyd englyn i'r *Tyst* a diolch i un o'i gyfoedion yn yr ysgol a'r coleg sef y Parchg John Gwilym Jones am ei gyfansoddi.

Mae rhyw ddawn a chyflawnder –
mwyn o dwym
  Yn dy hiwmor tyner;
  Ymhob poen ac ymhob her
 Yn fendith o addfwynder.


Estynnwn ein cydymdeimlad i'w briod hawddgar Susan, Iestyn y mab, ei wyrion Jac ac Elen, Lesley a Gwyn a'i ffrindiau niferus.

**Gareth Morgan Jones**

# Golygyddol

## Athroniaeth anweledig

Nid yn aml y byddaf yn darllen llyfrau am yr economi a gwleidyddiaeth, ond dros y Nadolig diwethaf fe wneuthum hynny. Roeddwn yn siop lyfrau fawreddog Heffers yng Nghaergrawnt ac mewn pentwr wrth y drws gwelais gyfrol yn dwyn y teitl, *The Invisible Doctrine*, gan George Monbiot a Peter Hutchinson. Wedi darllen y broliant a gyfeiriai at ‘the secret of Neoliberalism and how it came to control your life,’ penderfynais ei phrynu. Roedd ei darllen yn agoriad llygaid i mi ac yn taflu goleuni newydd ar yr hyn sy’n digwydd yn y byd ac o fewn i’r gymdeithas gyfoes. Er na ellir llyncu’r cwbl a gyflwynir yn y llyfr hwn, eto fe gyflwynir byd-olwg sy’n bwysig inni ei ystyried fel Cristnogion wrth feddwl am yr hyn sy’n digwydd yn yr UDA, Rwsia, Y Dwyrain Canol ac yma yng ngwledydd Prydain.




Yn y gyfrol mae’r awduron yn cyflwyno dadansoddiad o’r ffordd y mae neoryddfrydiaeth (y rhyddfrydiaeth newydd) wedi hydreiddio i’n bywydau heb i’r rhan fwyaf ohonom sylwi. Nid llyfr economaidd traddodiadol yw hwn; yn hytrach, mae’n archwiliad o ideoleg sydd i raddau helaeth yn gudd ond eto sy’n llunio cyfeiriad yr economi, polisïau a phenderfyniadau gwleidyddol a disgwyliadau cymdeithasol mewn modd sy’n ymddangos yn dderbyniol a naturiol.

### Gwreiddiau neoryddfrydiaeth

Un o gryfderau’r llyfr yw’r modd y mae’n olrhain tarddiad hanesyddol neoryddfrydiaeth (neoliberalism) ac yn dangos sut y llwyddodd grŵp bychan o feddylwyr i ddylanwadu ar lywodraethau ledled y byd. Cychwynnodd y ffurf fodern o’r syniadaeth hwn ym 1938 o dan arweiniad Ludwig von Mises a Friedrich Hayek a’u *magna opera, Bureaucracy* a *The Road to Serfdom.* Yn syml, y mae eu hideoleg yn caniatáu i gyfoethogion elwa’n anfoesol gan fod yn rhydd o drethi gwladol a chyfreithiau gwladwriaethol. Gall pobl a chwmnïau llwyddiannus wneud yr hyn a fynnant er mwyn gwneud rhagor o elw. O ganlyniad rheibiant y greadigaeth o’i hadnoddau gan ddirymu hawliau gweithwyr. Yna, oherwydd bod cwmnïau ac unigolion mor bwerus a dylanwadol gallant orfodi llywodraethau i lunio polisïau gwleidyddol a chymdeithasol sydd er budd iddynt hwy. Yr athroniaeth hon oedd sylfaen gwleidyddiaeth Ronald Regan a Margaret Thatcher. Dywedodd M. Thatcher mai ei beibl oedd *The Constitution of Liberty* a ysgrifennwyd gan F. Hayek. Roedd Hayek yn annog toriadau mawr mewn trethi i’r cyfoethogion, gwanychu undebau llafur, lleihau’r nifer o gartrefi cymdeithasol, dadreoli a phreifateiddio gwasanaethau cyhoeddus. Fe gofiwn ddyfyniad enwog M. Thatcher,

> I think we have gone through a period when too many children and people have been given to understand ‘I have a problem, it is the Government’s job to cope with it!’ or ‘I have a problem, I will go and get a grant to cope with it!’ ‘I am homeless, the Government must house me!’ and so they are casting their problems on society and who is society? There is no such thing! There are individual men and women and there are families and no government can do anything except through people and people look to themselves first. (O gyfweliad yn *Woman’s Own*, 1987)

### Llinynnau cudd

Mae’r naratif hwn yn hynod ddiddorol a brawychus yn 2026. Oherwydd fe welwn yr egwyddorion hyn yn ein cymdeithas, yn ymddygiad cwmnïau pwerus, yn ymarweddiad unigolion gorgyfoethog a gwladwriaethau unbenaethol. Yr hyn y maent wedi llwyddo i’w wneud yw gwneud trachwant, hunanoldeb a difrawder yn bethau derbyniol o fewn i gymdeithas fel bod pobl gyffredin wedi llyncu eu celwyddau. Nid yw gofod yn caniatáu i mi ymhelaethu yma. Os hoffech wybod mwy darllenwch y gyfrol. Ond fel Cristnogion mae’n bwysig ein bod yn gwybod am ac yn deall y syniadaethau hyn sydd ar gerdded. Yn aml, o dan yr hyn a welwn ar y wyneb y mae llinynnau cudd yn cael eu tynnu sy’n troi’r dŵr economaidd i felin y dosbarth breiniol.

Y mae’r Beibl drwyddo draw yn ein rhybuddio am drachwant cyfoethogion a’r rhai sy’n ein llywodraethu gan ein hannog i fyw egwyddorion Teyrnas Dduw sy’n llawn haelioni, maddeuant a chyfiawnder. ‘Ond dyma’r ffrwyth mae’r Ysbryd Glân yn ei dyfu yn ein bywydau ni: cariad, llawenydd, heddwch dwfn, amynedd, caredigrwydd, daioni, ffyddlondeb, addfwynder a hunanreolaeth.’ (Galatiaid 5:22–23)

**Alun Tudur**


# BUGEILIO’N GILYDD



**‘Gofalwch amdanoch eich hunain ac am yr holl braidd’** (Actau 20:28)

Ydych chi’n angerddol dros estyn gofal a chariad?
Ydych chi’n teimlo galwad i estyn gofal bugeiliol?
Ydych chi awydd dysgu mwy am fugeilio’n gilydd?

**Dyma wahoddiad i chi ddilyn y modiwl ‘Bugeilio’n Gilydd’.**

Nos Lun, Chwefror 2, 9, 23, Mawrth 2, 9, 16, 23 a 30
7:00 – 8:30 o’r gloch ar Zoom,
dan arweiniad y Parchedig Carwyn Siddall.

Am fwy o wybodaeth, neu i gofrestru: carwyn@annibynwyr.cymru

**Croeso cynnes i bawb**

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# WRTH Y LLYW #12



Daeth tri pheth ynghyd: ymweld ag Eglwys Crist, y Bala (24/2); Brecwast Gweddi Seneddol Gŵyl Ddewi 2026, bore Iau, 3/5 yn y Pierhead, Bae Caerdydd a lansiad ap gweddi Eglwys Bresbyteraidd Cymru: *Gweddi.Prayer*, y nos Iau honno.

Ym mynwent Eglwys Crist, y Bala mae J. Puleston Jones (1862–1925) yn gorwedd; gweinidog, llenor, a diwinydd. Da oedd cael cyfle diwedd prynhawn i ymweld â'i fedd. Er treiglad y blynyddoedd, erys gwerth i'r geiriau hyn o'i eiddo:

> Gweddïwn am grefydd â dannedd arni, crefydd â min ... mor dda fuasai tipyn o hogi. Mae eisiau mwy o weddïo a mwy o waith – y ddau hefo'i gilydd sydd eisiau. Mae tuedd mewn rhai ohonom i fod yn weddi i gyd, a heb fod yn waith. Mae eraill ohonom yn waith i gyd, heb fod yn weddiwyr. Mae eisiau'r ddau.

(*J. Puleston Jones; Meddyliau Puleston*, Gol. R. W. Jones; Caernarfon. 1934)

Daeth tri pheth ynghyd a chodi un cwestiwn: Pa ddiben sydd i weddi? Ar yr olwg gyntaf mae un o ddywediadau mwyaf cyfarwydd Iesu fel pe'n awgrymu nad oes fawr o ddiben i weddïo! **... oherwydd y mae eich Tad yn gwybod cyn i chwi ofyn iddo beth yw eich anghenion** (Mathew 6:8).

Gellid deall yr angen am ap gweddi a brecwast gweddi ac unrhyw/pob cyfrwng/cyfle arall a geir i weddïo a chydweddïo'n gyson ddyfal petai ein Duw yn Deyrn didostur, yn gyndyn ei gymwynas, yn amharod ei fendith; ond pa ddiben sydd i hyn oll, os Tad cariadlawn ydyw, yn gwybod eisoes holl eisiau ei blant, a dim byd yn ormod ganddo i wneud drostynt?

### Hel meddyliau

Mae codi'r mater yn gyfle i ni hel meddyliau am ddau neu dri o bethau. I ddechrau, nid y lleiaf o ddibenion gweddi yw dyfnhau ein hymdeimlad o ddibyniaeth ar Dduw ein Tad, a chreu ohonom o'r herwydd, bobl gwir ddiolchgar. Dyma hanfod ein ffydd: Diolch. Yng nghanol di-ben-drawdod ein prysurdeb heddiw, hawdd iawn yw colli gafael ar *raslonrwydd* Duw. Mae hen eiriau wedi colli'u min: geiriau fel ***Gras***. Arferai'r cymal ***Gorsedd Gras*** fod yn allweddol bwysig i bobl y ffydd gynt. Onid oes angen ailddarganfod yr hen drysorau hyn? Mae gofyn inni ddod yn gyson at **Orsedd Gras**, pe'n unig i sylweddoli mai gorsedd **Gras** ydyw, mai **Gras** Duw yw gwaelod a gwraidd ein byw a'n bod, a dim ond yng ngoleuni **Gras** Duw y mae dehongli ein cyflwr yn gywir.

### Gwir anghenion

Ymhellach, er bod ein Tad yn gwybod cyn i ni ofyn iddo beth sydd angen arnom, mae'n gwestiwn a wyddom ni ein hunain! Un o wersi pwysicaf bywyd yw dod i sylweddoli beth yw ein gwir anghenion. Dysgu bod mewn eisiau yw un arall o ddibenion gweddi; dysgu beth sydd wir angen arnom, dysgu gwybod nad ydym wir yn gwybod beth sydd angen arnom. Wrth ddod yn gyson at Orsedd Gras, cawn ein hatgoffa'n gyson mor fawr a chyson yw ein hangen am Ras Duw.

Gellir mynd ymhellach; braint arbennig y gweddïwr yw dod i sylweddoli beth yw eisiau'r Tad. Duw mewn eisiau yw'r Duw a welir yn Iesu Grist. Cofiwch gwpled Elfed (1860-1953):

> Os Duw sydd ar f'enaid ei eisiau,
> Mae eisiau fy enaid ar Dduw.
>
> (*CFf*. 208)

Am mai Tad ydyw, eisiau dyfnaf ei galon yw dod i berthynas agos a real â'i blant. Nid hiraeth y plant am ddod adref yw gwirionedd mwyaf y Testament Newydd, ond hiraeth Tad am eu cael yn ôl i'w aelwyd. Diwallu eisiau'r Tad yw'r unig beth a ddiwalla ein heisiau ninnau yn y pen draw. Ymrown felly i weddïo. Rhoes Iesu fwy na chyfarchiad newydd i ddechrau'n gweddïau wrth ein dysgu i ddweud: **Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd** (Mathew 6:9a) rhoes hefyd gyfeiriad a diben i'n gweddi. Dysgu rhoi ystyr ddyfnach o hyd i'r cyfarchiad bendigedig yna yw diben gweddïo.

**Owain Llŷr Evans**

**PROSIECT DENMAN 2026**
Ein hysgol Sul: **'Newid ein byd er gwell'**
Ewch ati i greu podlediad / hysbyseb / fideo (hyd at 5 munud o hyd) neu waith celf ar y thema 'Newid ein byd er gwell'

Erbyn dydd Iau
4 Mehefin 2026
E-bostiwch:
rhodri@annibynwyr.cymru
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Glanyrafon, Abertawe SA7 0AJ

MANYLION:
01792 795888
annibynwyr.cymru

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*